Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Llandegfan
**Ysgol Gynradd Llandegfan**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5UW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**


**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/06/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llandegfan yn lleoliad meithrin cofrestredig sydd yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i blant pentref Llandegfan a’r ardal wledig o’i gwmpas.  Mae’n cyfarfod mewn ystafell yn Ysgol Gynradd Llandegfan, ger Porthaethwy yn Ynys Môn.

Mae’r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i’r sesiynau.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad.  Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu chwarter y plant.

Mae’r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am ddau fore a dau brynhawn yr wythnos ar gyfer plant tair a phedair oed.  Roedd 21 o blant tair a phedair oed wedi’u cofrestru yn y lleoliad yn ystod yr arolygiad gydag 18 ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan un arweinydd a thair ymarferydd llawn amser.  Mae pob aelod staff wedi’u cymhwyso’n briodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Medi 2014 a chan Estyn ym Mehefin 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ym mhob maes dysgu;
- dysgwyr y Gymraeg yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu gallu i siarad a defnyddio'r iaith;
- bron pob plentyn yn arddangos lefel uchel o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu;
- safonau ymddygiad yn dda gyda phlant yn ystyriol a chwrtais tuag ei gilydd;
- profiadau dysgu diddorol yn cynnig cyfleoedd da i blant ddewis llwybr dysgu eu hunain.
- ansawdd addysgu ac asesu'n gyson dda; a
- darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn creu synnwyr cryf o ddiben a gwelliant parhaus i waith y lleoliad;
- pob ymarferydd yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol ac yn gweithio'n dda fel tîm;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- hunan-arfarnu wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn cynllunio ac asesu;
- nifer dda o bartneriaethau'n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant;
- ymarferwyr yn barod i roi cynnig ar syniadau newydd a dulliau gwahanol o weithio; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Creu cornel ddarllen fydd yn denu diddordeb plant.
2. Uwchraddio'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ym mhob maes dysgu. Maent yn ddysgwyr eiddgar sy'n dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn caffael gwybodaeth a medrau newydd gyda hyder cynyddol. Mae bron pob plentyn yn ymdrechu'n galed i ganolbwyntio ac i ddyfalbarhau ar dasgau dros gyfnod estynedig. Yn ystod gweithgareddau dewis rhydd, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn arbrofi ac yn ymchwilio'n hyderus, yn mentro ac yn gwneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau da y maent yn eu cyflawni.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymhwyso eu medrau cyfathrebu a llythrennedd yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un yn hapus i sgwrsio gyda'i gilydd a chydag oedolion, maent yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus ac yn defnyddio iaith briodol wrth chwarae. Er enghraifft, wrth iddynt chwarae prynu a gwerthu blodau yn yr ardal chware rôl. Mae'r rhan fwyaf o'r plant gyda diddordeb mewn llyfrau, maent yn mwynhau eu cynnwys ac yn eu trin fel darllenydd. Mae pob plentyn yn mwynhau arbrofi gyda gwneud marciau ac mae lleiafrif o'r grŵp wedi dechrau ysgrifennu eu henwau a brawddegau byrion yn annibynnol.

Mae'r plant sy'n dysgu'r Gymraeg yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu gallu i ddysgu a defnyddio'r iaith. Mae pob un yn deall llawer mwy o Gymraeg nag y maent yn ei siarad.

Wrth eistedd ar y mat ar gychwyn sesiynau, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydgyfrif hyd at ddeg a mwy o wrthrychau yn hyderus iawn. Maent yn ymuno mewn rhigymau a chaneuon rhif ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o rif yn eu chwarae. Gyda chymorth oedolyn, gall grwpiau o blant ddosbarthu gwrthrychau fel trychfilod, yn ôl meini prawf penodol ac maent yn medru gosod dyddiau'r wythnos yn ôl eu trefn.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd priodol yn gallu i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd dysgu.

Mae canlyniadau holiaduron y rhieni/gofalwyr yn dangos lefel uchel o foddhad â'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.

### Lles: Da

Mae bron pob plentyn yn arddangos lefel uchel o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu ac yn mwynhau ei amser yn y lleoliad. Mae cyfranogiad plant mewn amrywiol weithgareddau fel y Cynllun Cyn-ysgol Iach, yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol o sut i gadw'n iach trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'r gweithgaredd corfforol a wnânt. Mae gan y plant berthynas agos gyda'r ymarferwyr

ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad.  Mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol.

Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda yn ystod sesiynau ac maent yn ystyriol a chwrtais tuag at eraill ac oedolion.  Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gyfeillgar gan arddangos lefelau cynyddol o annibyniaeth.  Mae'r holl blant yn fodlon iawn i ymgymryd â chyfrifoldebau fel rhannu'r llefrith yn ystod cyfnod byrbrydau.  Wrth iddynt aeddfedu, mae'r plant yn dysgu gwneud penderfyniadau mwy bwriadus ynghylch eu dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Trwy gydgynllunio gofalus, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol sy'n bodloni anghenion pob plentyn.  Mae'r arfer o addysgu'r cwricwlwm trwy themâu fel 'Yn yr Ardd,' yn sicrhau ymdriniaeth briodol â phob maes dysgu dros gyfnod o amser.  Mae'r profiadau dysgu diddorol yn cynnig cyfleoedd da i blant wneud penderfyniadau a dewis llwybr dysgu eu hunain.

Mae darpariaeth gadarn iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.  Mae ffocws cryf ar annog plant i gymryd rôl weithredol mewn trafodaethau grŵp.  Cânt eu hannog i rannu eu profiadau a'u syniadau, i fynegi barn ac i wrando'n ofalus ar gyfraniadau plant eraill.  Er bod cyfleoedd mynych i blant wrando ar oedolion yn darllen storïau, nid yw'r gornel ddarllen yn ddigon atyniadol i'w cymell i geisio trin llyfrau yn annibynnol.  Mae cyfleoedd da yn ystod y ddarpariaeth barhaus i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar trwy wneud marciau i bwrpas, er enghraifft, i wneud rhestrau neu i ysgrifennu cardiau cyfarch.

Mae'r arfer ar gychwyn sesiynau o gyfrif faint sy'n bresennol, yn rhoi cyfleoedd da i blant ddysgu am werth cymharol wahanol rifau a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at rifedd.  Mae ymarferwyr yn defnyddio rhigymau rhif a chaneuon mae'r plant wedi'u dysgu ar eu cof yn fedrus iawn i ddatblygu eu medrau ac i wneud y gwaith yn hwyl.  Gwna gweithgareddau megis gwneud jig-sos ac arbrofi yn y cafn dŵr neu'r cafn tywod gyfraniad gwerthfawr tuag at ddatblygiad medrau rhifedd plant.

Er bod amrediad priodol o offer TGCh, nid ydynt yn ddigon cyfoes i ddenu diddordeb llawer o'r plant.  Mae hyn yn lleihau eu heffeithiolrwydd fel adnoddau dysgu.

Mae'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn cyfrannu'n gryf tuag at ddatblygu hunaniaeth bersonol a diwylliannol y plant.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

**Addysgu:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad addysgol a phersonol plant.  Mae ganddynt afael cadarn ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn gwybod yn dda am ddatblygiad plant.  Daw hyn i'r amlwg yn y ffordd maent yn amrywio gweithgareddau er mwyn gwneud yn

siŵr bod y gwaith yn cydweddu'n glos â gallu ac anghenion yr unigolion neu grŵp sydd dan sylw. Trwy ymyrraeth bwrpasol a chwestiynu medrus, llwydda ymarferwyr yn dda i herio syniadau plant ac i symud dysgu yn ei flaen. Caiff pob plentyn ei annog i wneud dewisiadau, i gynhyrchu syniadau ei hun ac i lynu at dasg dros gyfnod estynedig. Mae’r pwyslais cryf a roddir gan yr holl ymarferwyr ar ddysgu gweithredol yn sicrhau ymglymiad bron pob plentyn ac yn cyfrannu’n gryf tuag at eu datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Caiff tasgau ffocws sydd o dan gyfarwyddyd ymarferydd eu defnyddio’n fwriadus ar gyfer cyflwyno medrau penodol i grwpiau o unigolion ac i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn profi’r un gweithgaredd. Fodd bynnag, wrth iddynt weithio yn yr ardaloedd dysgu, mae plentyn yn rhydd i wneud dewisiadau ei hunain.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn cadw cofnod manwl o gynnydd pob unigolyn trwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Mae trefniadau effeithiol a systematig gan ymarferwyr ar gyfer cofnodi eu harsylwadau o ymateb plant i’w profiadau dysgu. Caiff y wybodaeth, maes o law, ei ddefnyddio’n effeithiol iawn ar gyfer cynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys y rhieni yn y prosesau asesu. Mae’r cyfleoedd gânt i drafod cynnydd eu plentyn gyda’r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gryfderau eu plant a’r hyn y gallant ei wneud i’w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Daw pob plentyn i’r lleoliad yn hapus ac yn siriol. Mae’r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant rannu eu profiadau a chymryd rhan mewn ymarfer corfforol yn y neuadd yr ysgol neu i ddefnyddio offer mawr fel beiciau yn yr ardal y tu allan. Mae’r profiadau hyn yn cyfrannu’n sylweddol tuag at ddatblygu eu lles emosiynol a’u medrau corfforol. Mae trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn yn rhydd o unrhyw aflonyddwch corfforol neu emosiynol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu chwilfrydedd a synnwyr o ryfeddod plant am y byd y maent yn byw ynddo, ac yn arbennig am fyd natur. Yn ogystal, caiff gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch eu hybu’n gryf drwy holl waith y lleoliad. Mae plant yn cael eu hannog i ddangos blaengaredd, i reoli eu hymddygiad a bod yn fodlon i rannu adnoddau gyda phlant eraill.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo parch y plant tuag at gredoau, arferion a thraddodiadau eraill a welir yng Nghymru yn effeithiol.

Mae’r arweinydd yn gweithredu’n fuan os oes pryder ynghylch datblygiad neu les unrhyw blentyn. Pan fo angen cymorth neu gefnogaeth arbenigol ar blentyn neu riant, mae’n gwybod yn dda gyda phwy i gysylltu.

Mae’r trefniadau sefydlu da ynghyd â gofal ymarferwyr, yn sicrhau bod plant sy’n newydd yn y lleoliad yn ymgynefino’n ddidrafferth.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall plant fanteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch.

Ac eithrio TGCh, mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Trwy ymweld â thref Biwmares ac ardaloedd eraill cyfagos, gwneir defnydd effeithiol o adnoddau lleol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Yn yr un modd, mae ymweliadau â'r lleoliad gan wahanol asiantaethau a phobl leol wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddysgu'r plant.

Mae'r ddarpariaeth awyr agored yn dda ac yn cael ei defnyddio'n bwrpasol gan y lleoliad ar gyfer ategu'r gwaith o dan do. Er enghraifft, er mwyn palu, plannu llysiau a ffrwythau ac arsylwi ar fyd natur. Mae'r ystafell ddosbarth o ansawdd da ac yn cynnig mynegiad llawn i unrhyw ddisgyblion ag anableddau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r synnwyr cryf o ddiben a grëir gan yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae'n llwyddo i greu ethos cadarnhaol dros ben gyda phlant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol yn ystod sesiynau. Maent i gyd yn cyfrannu'n arwyddocaol at ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Mae'r gweithdrefnau clir ac effeithiol sydd ar gyfer gwerthuso staff yn arwain at adnabod anghenion hyfforddiant pob unigolyn. Mae perthynas y lleoliad gyda phlant, rhieni a'r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol i synnwyr o gymuned.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth addas am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Gyda chefnogaeth yr arweinydd, mae swyddogion y pwyllgor yn ymgynghori ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at weinyddiaeth y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant. Maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella'r

ddarpariaeth ac i godi safonau. Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.

Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut mae hunan-arfarnu wedi'u galluogi i wneud gwelliannau arwyddocaol i ansawdd cynllunio ac asesu.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu diweddar â'r cynllun gwella, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Caiff y blaenoriaethau a nodir eu gweithredu'n systematig a thrylwyr gan yr arweinydd a'r ymarferwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i geisio'u cynnwys yn y gweithgareddau a drefnir. Mae'r llawlyfr gwybodaeth yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn annog y rhieni i drafod unrhyw bryderon gyda'r arweinydd.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cynhyrchiol iawn gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo plant i'r dosbarth derbyn ar ddiwedd y flwyddyn addysgol. Mae'r cydweithio llwyddianus sydd rhwng y lleoliad a'r grwpiau eraill sy'n defnyddio'r ystafell ddosbarth yn ystod amseroedd gwahanol o'r wythnos, yn galluogi staff i rannu syniadau ac i gael polisiau cyffredin..

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae'r cysylltiadau da a ffurfiwyd gyda phobl a sefydliadau yn y gymuned, megis yr Heddlu a gwasanaethau iechyd, wedi arwain at fanteision sylweddol i blant a staff y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn rheoli staff ac adnoddau yn fedrus ac yn sicrhau bod y lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyfforddiant diweddar ar hunan-arfarnu a datblygu iaith yn y blynyddoedd cynnar wedi'u galluogi ymarferwyr i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn fwy llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd, maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio ac maent yn rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o gyllideb y lleoliad. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Maent yn

arfarnu penderfyniadau gwariant yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

O ystyried safonau cyflawniad da y plant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 12 | 11<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 11<br>92% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 69% | 26% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 12 | 9<br>75% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 6<br>50% | 3<br>25% | 2<br>17% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 12 | 8<br>67% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 12 | 9<br>75% | 2<br>17% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

## Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |